# STRATEGAETH CADWRAETH DŴR

## Cynnig i godi 10 annedd fforddiadwy a gwaith datblygu cysylltiedig yn Ysgol Babanod Coed Mawr gynt, Bangor, Gwynedd, LL57 4TW

Paratowyd ar ran
Cyngor Gwynedd

OWEN DEVENPORT CYF LTD

Cynllunwyr Tref Siartredig • Chartered Town Planners

## Cyfeirnod yr Asiantau: - 1607/11/23


RTPI Chartered Town Planners

5 Stryd y Cae / 5 Field Street,
Llangefni,
Ynys Môn / Anglesey,
LL77 7EH
01248 724 356

23 Lôn Wynnstay / 23 Wynnstay Road,
Bae Colwyn / Colwyn Bay,
Conwy,
LL29 8NB
01492 536 024

20 Stryd y Dyffryn / 20 Vale Street,
Dinbych / Denbigh,
LL16 3BE
01745 816 145



Rhif y Cwmni / Company No: 3956679 • Rhif cofrestru TAW / VAT Registration No: 753 0346 49 • Cyfarwyddwr / Director: Jamie Bradshaw – BA(Hons), MSc, MRTPI

**Awdur:**

**Enw:** Jamie Bradshaw Cyfarwyddwr

**Dyddiad:** 12/12/2023

**Adolygwyd gan:**

**Enw:** Jamie Bradshaw Cyfarwyddwr

**Dyddiad:** 12/12/2023

**Cyflwynwyd/Cymeradwywyd gan:**

**Enw:** Jamie Bradshaw Cyfarwyddwr

**Dyddiad:** 12/12/2023

## STRATEGAETH CADWRAETH DŴR

## YSGOL BABANOD COED MAWR GYNT, BANGOR, GWYNEDD, LL57 4TW: CYNNIG I GODI 10 ANNEDD FFORDDIADWY A GWAITH DATBLYGU CYSYLLTIEDIG

### 1.0 CYFLWYNIAD

**1.1** Mae ein hinsawdd newidiol a phoblogaeth gynyddol yn rhoi straen sylweddol ar adnodd dŵr sydd eisoes yn gyfyngedig. Er bod dŵr yn adnodd adnewyddadwy, mae llawer o ardaloedd yn y DU mewn perygl o straen diffyg dŵr. Hyd yn oed ar gyfer ardaloedd gyda digon o gyflenwad dŵr, mae'r ynni i gyflenwi'r dŵr yfed a thrin y dŵr gwastraff cysylltiedig yn aml yn cael ei nodi fel pryder amgylcheddol. Er bod defnydd o ddŵr yn gysylltiedig iawn ag ymddygiad defnyddwyr, mae'r mesurau effeithlonrwydd dŵr yn y strategaeth hon yn bwriadu arbed cyfansymiau sylweddol o ddŵr ac ynni wrth wella'r swyddogaeth.

**1.2** Mae'r datganiad canlynol yn nodi'r dull a fwriedir ar gyfer y cynllun. Gall hyn newid yn rhan o unrhyw waith dylunio manwl yn dilyn y cais, ond byddai unrhyw gynllun o'r fath yn dal yn gorfod cydymffurfio â gofynion perthnasol y polisi Cenedlaethol a Lleol ar ddefnydd ac effeithlonrwydd dŵr, ac felly byddai unrhyw ddull diwygiedig yn dal i adlewyrchu nodau'r ddogfen hon.

### 2.0 RHEOLIADAU A CHANLLAWIAU

**2.1** Mae'r cynigion yn y strategaeth wedi cael eu nodi yn unol â'r polisïau a'r dogfennau canllaw canlynol:

- *Dogfen Gymeradwy G: Glendid, diogelwch dŵr poeth ac effeithlonrwydd dŵr - Gofyniad G2 a rheoliad 17K*
- *Canllaw Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy - 5.7 Rheoli Dŵr*
- *AECB – Safonau Dŵr: Cyflawni Adeiladau gyda pherfformiad dŵr ac ynni rhagorol - Cyfrol 1: Safonau Dŵr a Chyfrol 2: Adroddiad Cefndir Technegol*
- *Y Gyfrifiannell Effeithlonrwydd Dŵr ar gyfer Eiddo Newydd (DCLG 2009)*

### 3.0 CADWRAETH AC EFFEITHLONRWYDD DŴR

**3.1** Mae'r datblygiad arfaethedig yn cynnwys 10 eiddo, o fathau eiddo a llety amrywiol. Nod y strategaeth hon yw cyflawni arfer da o ran cadwraeth dŵr.

**3.2** Nodir y mesurau canlynol i sicrhau llai o ddefnydd dŵr, ac i annog ailgylchu dŵr yn y cartref:-

#### *Defnydd Dŵr*

**3.3** Ni fydd defnydd dŵr y bobl sy'n byw ymhob eiddo yn fwy na 125 litr y person y diwrnod. Mae hyn wedi'i gyfrifo yn unol â'r fethodoleg a nodir yn y ddogfen "Cyfrifiannell Effeithlonrwydd Dŵr ar gyfer Eiddo Newydd".

### *Llif wedi'i Reoleiddio*

**3.4** Llif wedi'i reoleiddio i osodiadau unigol er mwyn sefydlogi cyfraddau'r llif a thymereddau drwy gydol y system.

### *Gosodiadau*

**3.5** Gosodiadau tapiau wedi'u hawyru a'u rheoleiddio i atal gwastraff drwy dasgu dŵr.

### *Cawodau*

**3.6** Uchafswm o ddau gawod ar gyfer pob pum person ymhob eiddo.

### *Pennau Cawod*

**3.7** Pennau cawod wedi'u rheoleiddio sy'n darparu 10 litr o lif fesul munud.

### *Toiledau*

**3.8** Toiledau â chyfleuster fflysio deuol i leihau gorddefnyddio dŵr.

### *Ailgylchu Dŵr Glaw*

**3.9** Bwriedir y bydd o leiaf Casgen Ailgylchu Dŵr Glaw yn cael ei ddarparu ymhob tŷ, i ddiystyru'r defnydd o dap allanol ar gyfer dŵr. Nid yw dulliau ail-ddefnyddio eraill wedi cael eu nodi ar hyn o bryd, ond gellid eu hystyried yn ystod y camau dylunio manwl unwaith y mae cynllun draenio manwl wedi cael ei gynhyrchu (er mwyn bodloni'r safon SAB perthnasol ar waith bryd hynny).

### *Dylunio*

**3.10** Dyluniad mecanyddol effeithlon a gosodiad gwres cywasgedig er mwyn lleihau'r amser aros am ddŵr poeth a lleihau'r defnydd o ddŵr

### *Safon*

**3.11** Bydd dyluniad y systemau dŵr poeth ac oer domestig yn cael ei osod yn unol â BS 6700 a'r cyfraddau llif isafswm / "delfrydol" a nodir ynddo ar gyfer unrhyw fath o offer hylendid / llif dŵr.

*Jamie Bradshaw* - BA (Anrh), MSc, MRTPI – **Rhagfyr 2023**

**Owen Devenport Ltd.**
**Cynllunwyr Tref Siartredig**